

Adroddiad i Senedd y Deyrnas Unedig 2025



Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol

*Adroddiad y Gwasanaeth Tribiwnlys
Ymarferwyr Meddygol i Senedd y DU 2025*

*Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag adran 52B o Ddeddf
Meddygaeth 1983 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal
Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol)
2008 (Rhif OS 1774).*



© Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol a'r
Cyngor Meddygol Cyffredinol 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn enquiries@mpts-uk.org.

ISBN: 978-1-7391680-8-7

Cynnwys

Rhagair	3
Adolygiad o 2025	5
Canllawiau newydd ar gyfer tribiwnlysoedd	5
Achosion o gamymddwyn rhywiol	6
Diwygio rheoleiddiol	7
Cost gwrandawiau	8
Ein harweinyddiaeth	9
Ein Pwyllgor	10
Ein tîm rheoli	10
OEin gweledigaeth	11
Gwneud penderfyniadau	12
Aelodau tribiwnlysoedd	13
Amrywiaeth aelodau tribiwnlysoedd	13
Hyfforddiant aelodau tribiwnlysoedd	14
Datblygiad aelodau tribiwnlysoedd	14
Sicrhau ansawdd penderfyniadau tribiwnlysoedd	14
Pwyntiau dysgu a gyhoeddwyd gan y Grŵp Sicrhau Ansawdd	15
Diweddariadau i ganllawiau tribiwnlysoedd	15
Tryloywder	16
Cyfiawnder agored	17
Penderfyniadau cyhoeddi	17
Cofrestrau buddiannau	17
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	18
Cysylltu â defnyddwyr yr MPTS	18

Cynnwys

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025	19
Tribiwnlysoedd mesurau interim –	
Cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia	20
Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – achosion newydd	20
Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – adolygiadau	20
Atgyfeiriadau ar gyfer prif wrandawriad	21
Gwrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol – achosion newydd	21
Lleoliad gwrandawiadau	22
Mathau o amhariadau honedig yn 2025	23
Dadansoddiad pellach o'r mathau o achosion	24
Ynglŷn â'r meddygon oedd yn bresennol mewn	
gwrandawiadau MPT newydd yn 2025	26
Gwrandawiadau diffyg cydymffurfio	28
Gwrandawiadau adfer	28
Gwrandawiadau adolygu MPT	28
Cynrychiolaeth a phresenoldeb	30
Meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion	
anaesthesia heb gynrychiolaeth gyfreithiol	32
Absenoldeb meddygon	33
Cynrychiolaeth a phresenoldeb yn ôl ethnigrwydd	33
Cymorth i dystion	34
Apeliadau	35
Sut rydyn ni'n ymateb i ddyfarniadau apêl	36
Canlyniadau apeliadau	37

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) i'r Senedd ar gyfer 2025.

Fi yw Cadeirydd yr MPTS ers mis Ionawr 2026. Cyn hynny, roeddwn yn Llywydd Siambr Pensiwn Rhyfel ac Iawndal y Lluoedd Arfog y Tribiwnlys Haen Gyntaf, gan oruchwylio 100 o ddeiliaid swyddi barnwrol, gan gynnwys barnwyr, aelodau gwasanaeth ac aelodau meddygol. Rydw i'n gobeithio y bydd fy nghefnidir gyrfa ym maes dyfarnu yn helpu i arwain yr MPTS drwy'r blynyddoedd nesaf wrth i ni wneud gwaith diwygio rheoleiddiol.

Rydw i'n ddiolchgar i fy rhagflaenydd fel Cadeirydd yr MPTS, Ei Hanrhydedd Deborah Taylor ac i'r Cadeirydd Dros Dro Gill Edelman am eu harweinyddiaeth dros gyfnod yr adroddiad hwn. Yn benodol, hoffwn gydnabod eu bod wedi arwain y gwaith o lansio'r *Canllawiau ar gyfer Tribiwnlysoedd yr MPTS* ym mis Tachwedd 2025. Roedd hyn yn newid sylweddol yn y ffordd rydyn ni'n helpu ein tribiwnlysoedd i wneud penderfyniadau annibynnol. Nod y canllawiau yw cefnogi penderfyniadau cyson a rhesymegol, gan wella tryloywder yn ein prosesau ar yr un pryd.

Erbyn hyn, mae gan dribiwnlysoedd ganllawiau ar fathau cyffredin o achosion, a bandiau sancsiynau i'w harwain ar y canlyniadau y byddem yn disgwyl eu gweld unwaith y bydd risg i ddiogelwch y cyhoedd wedi'i nodi. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddwn yn monitro'n ofalus sut maen nhw'n cael eu defnyddio ac yn casglu adborth gan y rhai sy'n ymwneud â'n gwrandawiadau.

Mae'n bwysig cydnabod y pryderon sydd wedi cael eu codi, yn y proffesiwn meddygol ac mewn mannau eraill, ynghylch sut mae rhai achosion addasrwydd i ymarfer wedi cael eu trin – yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chamymddwyn rhywiol a rhyddid mynegiant. Fel Cadeirydd, byddaf yn parhau i wrando'n ofalus ar bawb sydd â buddiant yn ein gwaith.

Hyd yma yn 2026, rydw i wedi dechrau gweithio ar gryfhau sicrwydd ansawdd penderfyniadau tribiwnlysoedd ac ychwanegu at yr hyfforddiant rydyn ni'n ei roi i aelodau ein tribiwnlysoedd. Bydd ein dull newydd yn caniatáu i fi, yn fy rôl fel Cadeirydd, gael mwy o oruchwyliaeth dros ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau.

Rhagair

Mae aelodau tribiwnlysoedd yn cael hyfforddiant ychwanegol ar ymarfer sy'n ystyriol o drawma, yn ogystal â gwell dealltwriaeth o wrthsemitiaeth a gelyniaeth gwrth-Fwslimaidd. Rydw i'n edrych ymlaen i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Yn olaf, rydyn ni'n croesawu ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth i ddiwygio prosesau rheoleiddio gofal iechyd proffesiynol yn y DU. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'n cyd-weithwyr yn y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd diweddarau'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli achosion addasrwydd i ymarfer yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth tribiwnlys mwy effeithlon ac effeithiol.



Fiona Monk

Y Barnwr Fiona Monk
Mehefin 2026

Adolygiad o 2025

Canllawiau newydd ar gyfer tribiwnlysoedd

Ddiwedd mis Medi 2025, fe wnaethom gyhoeddi ein *Canllawiau newydd ar gyfer Tribiwnlysoedd yr MPTS*. Dechreuodd ein tribiwnlysoedd eu defnyddio ym mhob gwrandawriad newydd o 24 Tachwedd 2025 ymlaen.

Roedd gennym ddau amcan wrth gyflwyno'r canllawiau newydd:

- ▶ Gwella tryloywder prosesau gwneud penderfyniadau tribiwnlysoedd, er mwyn i unigolion cofrestredig, tystion, y rhai sy'n cwyno a'r cyhoedd allu deall yn well sut mae ein tribiwnlysoedd yn gwneud penderfyniadau, a beth yw'r canlyniad tebygol mewn gwahanol fathau o achosion.
- ▶ Gwella cysondeb ym mhrosesau gwneud penderfyniadau tribiwnlysoedd, yn enwedig drwy ddefnyddio'r pwyntiau amlycaf mewn dyfarniadau apeliadau.

Mae'r canllawiau newydd hefyd yn cynnwys siartiau llif methodoleg. Mae'r rhain yn helpu tribiwnlysoedd i wneud penderfyniadau ac yn sicrhau bod yr holl agweddau perthnasol yn cael eu hystyried ar y cam cywir. Mae'r siartiau hefyd yn gwneud ein prosesau'n llawer cliriach i unrhyw un sydd â buddiant yn ein gwaith.

Mae'r bandiau sancsiynau newydd yn dangos yr ystod o ganlyniadau y gellir eu disgwyl mewn gwahanol fathau o achosion, ar ôl i'r tribiwnlys benderfynu a yw meddyg yn peri risg isel, ganolig neu uchel i'r cyhoedd.

Gan ddefnyddio'r canllawiau newydd, rhaid i dribiwnlysoedd asesu difrifoldeb honiad a'r nodweddion a allai gynyddu difrifoldeb. Er enghraifft:

- ▶ Bydd honiadau sy'n ymwneud ag ymosodiadau rhywiol, perthnasoedd amhriodol neu drais fel arfer yn perthyn i ben uchaf y sbectrwm.
- ▶ Bydd honiadau sy'n ymwneud â gwahaniaethu anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fel arfer yn perthyn i ben uchaf y sbectrwm.
- ▶ Gall ymddygiad parhaus neu ymddygiad sy'n digwydd fwy nag unwaith, ac ymddygiad tuag at berson agored i niwed, gynyddu difrifoldeb.

Rhaid i dribiwnlysoedd barhau i ystyried amgylchiadau achosion unigol a phenderfynu'n annibynnol ar y sancsiwn lleiaf cyfyngol a fydd yn mynd i'r afael â'r amcan cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y canllawiau newydd, gan gymharu canlyniadau newydd â data hanesyddol. Byddwn yn adolygu'r canllawiau'n rheolaidd, gan ofyn am adborth gan randdeiliaid allweddol.

Adolygiad o 2025

Achosion o gamymddwyn rhywiol

Roedd camymddwyn rhywiol yn cyfrif am bron i un o bob pump o'r honiadau newydd gafodd eu dwyn gerbron ein tribiwnlysoedd yn 2025.

Ar draws 160 o wrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol newydd, gwelsom 270 o wahanol fathau o achosion. Cafodd 48 o honiadau gwahanol o gamymddwyn rhywiol eu hystyried – rhai yn erbyn cyd-weithwyr, cleifion, aelodau o'r teulu neu bobl eraill.

Mae rhagor o fanylion am y ffigurau hyn yn yr adran 'Canlyniadau gwrandawiadau' (t24).

Mae ymddygiadau o'r fath yn gwbl annerbyniol yn y proffesiwn meddygol. Mae achosion sy'n ymwneud â chamymddwyn rhywiol ymysg y materion mwyaf difrifol sy'n cael eu clywed gan ein tribiwnlysoedd, sy'n ystyried yr holl dystiolaeth yn ofalus.

Mae ein *Canllawiau newydd ar gyfer Tribiwnlysoedd yr MPTS* yn canolbwyntio ar gamymddwyn rhywiol, camddefnyddio pŵer a thorri ffiniau proffesiynol. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir, pan fydd ymddygiad sy'n peryglu diogelwch cleifion neu'n achosi niwed, y dylid defnyddio'r sanctsiynau mwyaf difrifol.

Bydd yr MPTS yn parhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill, y proffesiwn meddygol, gweithwyr meddygol proffesiynol a grwpiau cleifion i ddeall ein nodau cyffredin ar y pwnc hwn, a deall sut gellir atal ymddygiad o'r fath.

Rhaid i feddygon, cleifion a'r cyhoedd fod yn hyderus y bydd honiadau o gamymddwyn rhywiol yn cael eu trin o ddifrif ac yn deg.

Adolygiad o 2025

Diwygio rheoleiddiol

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth i ddiwygio prosesau rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Bwriad y ddeddfwriaeth arfaethedig yw moderneiddio'r broses o reoleiddio meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia – y newid mwyaf arwyddocaol i ddeddfwriaeth ers Deddf Meddygaeth 1983.

Ynghyd â'n cyd-weithwyr yn y GMC, rydyn ni'n croesawu hyn fel cam sylweddol at ddull mwy ymatebol, hyblyg a thosturiol o reoleiddio.

Rydyn ni wedi gweithio gyda'n cyd-weithwyr yn y GMC i roi adborth i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei datblygu, ac wrth baratoi ar gyfer y newid – er enghraifft sut mae trosglwyddo achosion o'r fframwaith deddfwriaethol presennol i'r un newydd.

Cafodd yr ymgynghoriad ar ein fframwaith rheoleiddio arfaethedig ar gyfer y dyfodol ei gynnal rhwng 24 Mawrth a 23 Mehefin 2026, ac, yn amodol ar amser seneddol, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn disgwyl gosod y ddeddfwriaeth gerbron Senedd y DU a Senedd yr Alban cyn diwedd y flwyddyn.

Adolygiad o 2025

Cost gwrandawiadau

Rydyn ni'n cyfrifo cost gwrandawiadau drwy rannu'r hyn rydyn ni'n ei wario â nifer y diwrnodau gwrandawiadau.

Mae costau gwrandawiadau uniongyrchol yn cynnwys ffioedd aelodau'r tribiwnlys a chynhaliaeth, ynghyd â chostau trawsgrifio a allai godi yn ystod neu ar ôl gwrandawriad.

Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys ein canolfan gwrandawiadau a'n cydweithwyr yn yr MPTS sy'n cynorthwyo'r gwaith o gynnal gwrandawiadau neu reoli achosion cyn gwrandawriad.

Cost gwrandawiadau 2025 fesul diwrnod	
Costau uniongyrchol	£1,572
Costau anuniongyrchol	£1,800
Cyfanswm y costau	£3,372

Ein harweinyddiaeth

Ein Pwyllgor

10

Ein tîm rheoli

10

Ein gweledigaeth

11



Ein harweinyddiaeth

Mae'r MPTS yn cynnal gwrandawiadau ar gyfer meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia y mae eu haddasrwydd i ymarfer yn cael ei gwestiynu. Rydyn ni'n gwneud ein penderfyniadau yn annibynnol, ac yn gweithredu ar wahân i rôl ymchwilio'r GMC.

Fel un o bwyllgorau statudol y GMC, rydyn ni'n atebol i Gyngor y GMC a Senedd y Deyrnas Unedig.

Ein Pwyllgor

Mae ein Cadeirydd, y Barnwr Fiona Monk, yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth awdurdodaethol ar gyfer y sefydliad. Mae hi'n cadeirio Pwyllgor yr MPTS, sy'n gorfod adrodd ar ei weithgareddau ddwywaith y flwyddyn i'r GMC a bob blwyddyn i Senedd y DU.

Ar ddiwedd 2025 roedd Pwyllgor yr MPTS yn cynnwys:

- ▶ Gill Edelman, aelod llewyg a Chadeirydd Dros Dro
- ▶ Barbara Larkin, aelod llewyg o'r tribiwnlys
- ▶ Dr Richard Vautrey, aelod cofrestredig o'r tribiwnlys
- ▶ Dr Stephen T Webb, aelod cofrestredig

Rhoddodd Ei Hanrhydedd Deborah Taylor y gorau i'w swydd fel Cadeirydd yr MPTS ym mis Ebrill 2025, ar ôl i'r Ysgrifennydd Cyfiawnder gyhoeddi ei bod wedi cael ei phenodi i arwain yr ymchwiliad cyhoeddus i farwolaethau Barnaby Webber, Grace O'Malley-Kumar ac Ian Coates, a gafodd eu lladd yn Nottingham ym mis Mehefin 2023.

Daeth Gill Edelman yn Gadeirydd Dros Dro ym mis Ebrill 2025, nes i'r Barnwr Fiona Monk gymryd yr awenau ddechrau mis Ionawr 2026.

Ein tîm rheoli

Mae'r MPTS yn cael ei reoli gan Gavin Brown, y Rheolwr Gweithredol, a'i uwch dîm rheoli.

Mae'r Rheolwr Gweithredol yn cymryd cyfarwyddyd gan Gadeirydd y Gwasanaeth wrth reoli'r Gwasanaeth yn weithredol ac mae hefyd yn atebol i Gyfarwyddwr Adnoddau'r GMC am ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol.

Ddiwedd 2025 roedd gennym 101 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn.

Ein harweinyddiaeth

Ein gweledigaeth

Mae Pwyllgor yr MPTS yn gosod y weledigaeth strategol ar gyfer y Gwasanaeth.

Ein gweledigaeth yw darparu gwasanaeth tribiwnlys sy'n effeithiol, yn deg ac yn ddiduedd.
Darparu gwasanaeth sy'n:



Gwneud penderfyniadau annibynnol, rhesymegol ac o ansawdd uchel i ddiogelu'r cyhoedd



Trin holl ddefnyddwyr gwasanaeth y tribiwnlys â pharch a thegwch



Defnyddio technoleg fodern i gynnal gwrandawriadau yn fwy effeithiol ac effeithlon



Rhannu ei wybodaeth ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfeiriad dyfarniadau yn y dyfodol.

Gwneud penderfyniadau

Aelodau tribiwnlysoedd	13
Amrywiaeth aelodau tribiwnlysoedd	13
Hyfforddiant aelodau tribiwnlysoedd	14
Datblygiad aelodau tribiwnlysoedd	14
Sicrhau ansawdd penderfyniadau tribiwnlysoedd	14
Pwyntiau dysgu a gyhoeddwyd gan y Grŵp Sicrhau Ansawdd	15
Diweddariadau i ganllawiau tribiwnlysoedd	15



Gwneud penderfyniadau

Aelodau tribiwnlysoedd

Rydyn ni'n penodi holl aelodau tribiwnlysoedd drwy gystadleuaeth agored ac yn eu dethol ar gyfer eu galluoedd ar sail cymwyseddau y cytunwyd arnynt.

Mae rhai aelodau o dribiwnlysoedd, gan gynnwys aelodau â chymwysterau cyfreithiol, wedi cael eu penodi'n arbennig a'u hyfforddi i weithredu fel cadeiryddion tribiwnlysoedd.

Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd gennym **254 o aelodau tribiwnlysoedd**, ac o'r rheini roedd:

104 yn aelodau cofrestredig

40 yn aelodau lleyg

110 yn gadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol.

Amrywiaeth aelodau tribiwnlysoedd

Mae aelodau ein tribiwnlysoedd yn dod ag amrywiaeth eang o safbwyntiau i'r rôl. Rydyn ni'n annog amrywiaeth eang o geisiadau drwy dargedu hysbysebion a defnyddio rhwydweithiau a ddefnyddir gan wahanol grwpiau.



Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd **52%** o'n 254 o aelodau tribiwnlysoedd yn **fenywod** ac roedd **25.6%** o grŵp ethnig lleiafrifol.



Rydyn ni'n ffurfio panel tri unigolyn ar gyfer pob tribiwnlys yn ôl argaeledd aelodau'r tribiwnlys. Rydyn ni'n monitro pa mor aml mae hyn yn cynhyrchu tribiwnlys amrywiol, ond nid ydym yn llunio panel ar sail nodweddion gwarchodedig.

Mewn gwrandawiadau newydd yn 2025, roedd gan ein tribiwnlysoedd amrywiaeth ethnigrwydd mewn 52% o wrandawiadau ac amrywiaeth rhyw mewn 73.3% o wrandawiadau. Roedd gan 40.2% o dribiwnlysoedd amrywiaeth o ran rhyw ac ethnigrwydd. Roedd tribiwnlys un rhyw heb aelodau o leiafrifoedd ethnig yn eistedd mewn 14.9% o wrandawiadau.

Gwneud penderfyniadau

Hyfforddiant aelodau tribiwnlysoedd

Mae holl aelodau newydd tribiwnlysoedd yn cael sawl diwrnod o hyfforddiant cynefino manwl. Mae hyn yn pwysleisio'r ddeddfwriaeth a'r rheolau sy'n rheoli'r broses ar gyfer ein gwrandawiadau, y sgiliau allweddol sydd eu hangen ar gyfer y rôl a'u defnydd yn ymarferol.

Rhaid i aelodau tribiwnlysoedd ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth drwy ein cylchlythyrau rheolaidd a diweddarau'r canllawiau. Rydyn ni hefyd yn darparu modiwlau e-ddysgu, fideos a gweminarau.

Yn 2025, roedd holl aelodau tribiwnlysoedd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant blynyddol, a oedd yn cynnwys:

- ▶ Ymgyfarwyddo â'r *Canllawiau newydd ar gyfer Tribiwnlysoedd yr MPTS* (cyn iddynt gael eu defnyddio mewn gwrandawiadau o 24 Tachwedd 2025 ymlaen) a'u defnyddio, gyda chymorth astudiaethau achos sy'n ymwneud â rhai o'r mathau penodol o achosion yn y canllawiau, gan gynnwys camymddwyn rhywiol a gwahaniaethu.
- ▶ Atgoffa a'r wybodaeth ddiweddaraf am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- ▶ Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion preifatrwydd ac anhysbysrwydd.

Datblygiad aelodau tribiwnlysoedd

Er mwyn cynnal ein safonau, mae aelodau tribiwnlysoedd yn cymryd rhan mewn prosesau amrywiol i'w helpu i ddatblygu.

Mae hyn yn cynnwys adborth 360 gradd lle ceir sylwadau gan aelodau eraill tribiwnlysoedd maen nhw wedi gweithio gyda nhw. Mae arsylwadau o'u cymwyseddau a ddangosir yn ystod gwrandawiadau hefyd yn cael eu cynnal gan aelodau o staff yr MPTS sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Sicrhau ansawdd penderfyniadau tribiwnlysoedd

Nod ein prosesau sicrhau ansawdd mewnol yw nodi pwyntiau dysgu i helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n glir, yn rhesymegol ac yn cydymffurfio â'r gyfraith achosion a'r canllawiau perthnasol. Gellir cynnwys unrhyw fater a nodwyd yn sesiynau hyfforddiant tribiwnlysoedd yn y dyfodol.

Yn 2025, roedd ein Grŵp Sicrhau Ansawdd yn cwrdd bob mis i adolygu cyfran o benderfyniadau ysgrifenedig tribiwnlysoedd.

Gwneud penderfyniadau

Rydyn ni'n treialu dull gwell o sicrhau ansawdd yn 2026:

- ▶ Mae cyd-weithiwr sydd â chymhwyster cyfreithiol yn yr MPTS yn asesu pob penderfyniad tribiwnlys ymarferwyr meddygol (MPT) newydd, er mwyn nodi arferion da ac unrhyw gyfleoedd dysgu.
- ▶ Mae Cyfarfod Adolygu Penderfyniadau, wedi'i gadeirio gan y Barnwr Fiona Monk, yn cael ei gynnal bob mis i ystyried achosion wedi'u hatgyfeirio a phenderfynu a oes angen cymryd camau pellach, fel rhoi adborth wedi'i deilwra a chefnogi aelodau unigol o driwlysoedd. Mae'r grŵp hefyd yn edrych ar y rhesymau dros ohirio gwrandawiadau y gwrandawyd arnynt yn rhannol.
- ▶ Bydd Grŵp Sicrhau Ansawdd diwygiedig, hefyd wedi'i gadeirio gan y Barnwr Fiona Monk, yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i nodi materion ehangach y byddai'n fuddiol eu cynnwys mewn hyfforddiant ychwanegol i holl aelodau tribiwnlysoedd neu i ddosbarthu cylchlythyr.

Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu gwell hwn yn ein Hadroddiad nesaf i Senedd y DU.

Pwyntiau dysgu a gyhoeddwyd gan y Grŵp Sicrhau Ansawdd

Yn 2025, cyhoeddodd y Grŵp Sicrhau Ansawdd bwyntiau dysgu i aelodau tribiwnlysoedd ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys:

- ▶ Atal gwrandawiadau MPT o ganlyniad i gamddefnyddio'r broses
- ▶ Effaith ataliad dros dro ac amodau ar feddygon dan hyfforddiant
- ▶ Ystyried achosion gwahaniaethu mewn gwrandawiadau MPT
- ▶ Egluro'r broses ar gyfer bwrw ymlaen mewn absenoldeb
- ▶ Ystyried preifatrwydd ac anhysbysrwydd mewn gwrandawiadau MPT
- ▶ Rheoli achosion euogfarn yn effeithiol
- ▶ Cyhoeddi a datgelu yn yr MPTS

Gallwch weld yr holl bwyntiau dysgu a roddwyd i aelodau tribiwnlysoedd yn www.mpts-uk.org/learning_points.

Diweddariadau i ganllawiau tribiwnlysoedd

- ▶ Daeth y canllawiau ar gyfer tribiwnlysoedd yr MPTS i rym ar 24 Tachwedd 2025, gan ymgorffori a disodli'r canllawiau Sancsiynau blaenorol, a dogfennau eraill.

Tryloywder

Cyfiawnder agored	17
Cyhoeddi penderfyniadau	17
Cofrestrau buddiannau	18
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	18
Cysylltu â defnyddwyr yr MPTS	18



Tryloywder

Cyfiawnder agored

Mae'r MPTS wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau agored a thryloyw. Mae gwrandawiadau Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol a gwrandawiadau Tribiwnlys Cymdeithion yn eistedd yn gyhoeddus, oni bai eu bod yn ystyried gwybodaeth gyfrinachol am iechyd unigolyn cofrestredig, neu fod amgylchiadau eithriadol.

Rydyn ni'n hysbysebu gwrandawiadau cyhoeddus sydd ar y gweill ar ein gwefan, gyda chrynodeb byr o'r honiad a wneir yn erbyn y meddyg, y cydymaith meddygol neu'r cydymaith anaesthesia.

Gall unrhyw un ddod i wrandawriad cyhoeddus ac rydyn ni'n annog pobl sydd â buddiant yn ein gwaith i fod yn bresennol. Mae grwpiau o fyfyrwyr meddygol a'r gyfraith yn ymweld â ni'n rheolaidd.

Cyhoeddi penderfyniadau

Ar ôl i wrandawriad MPT ddod i ben, byddwn yn cyhoeddi Cofnod o Benderfyniadau, gydag enwau tystion ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael eu golygu. Mae hwn yn egluro'r rhesymau dros unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y tribiwnlys ac mae ar gael ar ein gwefan am ddeuddeg mis.

Os bydd canfyddiad o amhariad, neu os bydd rhybudd yn cael ei roi, bydd yr un cofnod hefyd yn ymddangos ar gofnod y meddyg, y cydymaith meddygol neu'r cydymaith anaesthesia ar gofrestrau'r GMC.

Mae manylion cyfyngiadau interim ar gofrestriad meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia (yn ddibynnol ar ganlyniad ymchwiliad gan y GMC) yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan am chwe wythnos. Mae cyfyngiadau interim yn ymddangos ar y cofrestrau cyhyd ag y maen nhw ar waith.

Cofrestrau buddiannau

Rydyn ni'n cyhoeddi dwy gofrestr o fuddiannau, i ategu tryloywder, uniondeb a hyder yn ein prosesau.

Fel un o bwyllgorau statudol y GMC, mae aelodau ein Pwyllgor yn dilyn y canllawiau a roddir i aelodau'r GMC ar ddatgan buddiannau. Mae manylion llawn buddiannau aelodau Pwyllgor yr MPTS a ddatganwyd ar gael yn www.mpts-uk.org/about/how-we-work/the-committee-and-their-interests.

Mae ein cofrestr aelodau tribiwnlysoedd yn ein helpu i osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a allai ei gwneud yn ofynnol i aelod o dribiwnlys ymneilltuo o wrandawriad. Mae manylion llawn buddiannau cofrestredig aelodau tribiwnlysoedd ar gael yn www.mpts-uk.org/TribunalMembersRegister

Tryloywder

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n gwaith, fel dyfarnwr ac fel cyflogwr. Rydyn ni'n defnyddio strategaeth a pholisïau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y GMC.

Fel dyfarnwr, rydyn ni'n gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer y rhai sy'n bresennol mewn gwrandawiaidau i wneud yn siŵr eu bod yn gallu chwarae rhan lawn yn yr achos.

Credwn ei bod yn bwysig bod aelodau tribiwnlysoedd yn dod ag amrywiaeth o safbwyntiau amrywiol i'r rôl. Wrth benodi aelodau newydd i'r tribiwnlysoedd, rydyn ni'n cymryd camau gweithredol i annog ceisiadau o amrywiaeth eang o gefndiroedd, drwy dargedu hysbysebion a defnyddio rhwydweithiau gyda grwpiau amrywiol.

Rydyn ni'n monitro, yn sicrhau ansawdd ac yn dadansoddi sut mae ein prosesau'n cael eu rhoi ar waith fel dyfarnwr a chyflogwr i sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r nod hwn a'n hymrwymiaidau.

Cysylltu â defnyddwyr yr MPTS

Mae Grŵp Defnyddwyr yr MPTS yn bodoli i'n helpu i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r holl bartïon sy'n ymwneud â'n gwrandawiaidau. Cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn, lle gall defnyddwyr godi materion gweithredol sy'n peri pryder gyda'n Cadeirydd a'n Rheolwr Gweithredol.

Mae sefydliadau amddiffyn meddygol, y cwmnïau cyfreithiol maen nhw'n eu cyfarwyddo, a staff o gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer y GMC yn bresennol yn y cyfarfodydd, sy'n ymchwilio ac yn paratoi achosion. Mae aelodau Pwyllgor yr MPTS hefyd yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r adborth a gawn yn y cyfarfodydd hyn ac agwedd adeiladol y rhai sy'n bresennol yn y cyfarfodydd. Mae clywed gan y rhai sydd â phrofiad o ddefnyddio ein gwasanaeth yn hanfodol er mwyn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Tribiwnlysoedd mesurau interim – Cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia	20
Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – achosion newydd	20
Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – adolygiadau	20
Atgyfeiriadau ar gyfer prif wrandawriad	21
Gwrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol – achosion newydd	21
Lleoliad gwrandawiadau	22
Mathau o amhariadau honedig yn 2025	23
Dadansoddiad pellach o'r mathau o achosion	24
Ynglŷn â'r meddygon oedd yn bresennol mewn gwrandawiadau MPT newydd yn 2025	26
Gwrandawiadau diffyg cydymffurfio	28
Gwrandawiadau adfer	28
Gwrandawiadau adolygu MPT	29



Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Gwrandawiadau tribiwnlys mesurau interim – Cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia

Mae'r MPTS wedi bod yn gyfrifol am wrandawiadau sy'n cynnwys cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia ers 13 Rhagfyr 2024.

Dim ond un gwrandawiad interim gafodd ei gynnal yn 2025.

Canlyniadau gwrandawiadau tribiwnlys mesurau interim	2025
Ataliad dros dro	1
Amodau	0
Dim camau gweithredu	0
Cyfanswm	1

Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – achosion newydd

Tribiwnlysoedd gorchmynion interim sy'n penderfynu a ddylid cyfyngu ar ymarfer meddyg tra bo ymchwiliad yn cael ei gynnal gan y GMC.

Mae pob achos tribiwnlys gorchmynion interim newydd yn cael ei glywed ar-lein.

Canlyniadau mewn gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim	2023	2024	2025
Ataliad dros dro	29	52	60
Amodau	173	213	231
Dim camau gweithredu	37	59	66
Cyfanswm	239	324	357

Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim – adolygiadau

Rhaid adolygu gorchmynion interim o leiaf bob chwe mis a dim ond yr Uchel Lys all eu hymestyn y tu hwnt i hyd y gorchymyn cychwynnol. Os caiff gorchymyn ei amrywio yn ystod y cam adolygu, rhaid cynnal adolygiad pellach o fewn tri mis.

Pan fydd y GMC a'r meddyg yn cytuno ar y canlyniad arfaethedig, gellir cynnal adolygiad ar y papurau gan gadeirydd sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol. Fel arall, cynhelir gwrandawiad adolygu. Dim ond un gwrandawiad adolygu gafodd ei gynnal wyneb yn wyneb yn 2025. Roedd y gweddill i gyd wedi'u cynnal ar-lein.

Adolygiadau tribiwnlys gorchmynion interim yn 2025	
Gwrandawiadau adolygu	384
Adolygwyd ar y papurau	673
Cyfanswm	1057

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Atgyfeiriadau ar gyfer prif wrandawriad

Os yw'r GMC yn credu y gallai fod amhariad ar addasrwydd meddyg i ymarfer, gall atgyfeirio achos y meddyg atom ar gyfer gwrandawriad tribiwnlys ymarferwyr meddygol.

Yn 2025, cawsom 210 o atgyfeiriadau ar gyfer prif wrandawriad. Roedd y rhain yn cynnwys achosion wedi'u hatgyfeirio:

- ▶ ar gyfer penderfyniad ar addasrwydd y meddyg i ymarfer (gwrandawiadau tribiwnlysoedd ymarferwyr meddygol newydd, neu fel rhan o wrandawriad adolygu)
- ▶ ar gyfer penderfyniad ynghylch diffyg cydymffurfio â chyfarwyddyd y GMC (gwrandawriad diffyg cydymffurfio)
- ▶ ar gyfer penderfyniad ar gais meddyg am adferiad (gwrandawriad adfer).

Atgyfeirio ar gyfer gwrandawriad tribiwnlys ymarferwyr meddygol newydd	199
Atgyfeirio ar gyfer gwrandawriad diffyg cydymffurfio	8
Atgyfeiriad ar gyfer gwrandawriad adfer	3
Cyfanswm yr atgyfeiriadau ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol	210


Weithiau bydd atgyfeiriadau i'r MPTS yn cael eu canslo. Gallai hyn fod oherwydd bod gwybodaeth wedi dod ar gael sy'n golygu nad yw'r trothwy ar gyfer atgyfeirio'n cael ei fodloni mwyach, neu oherwydd amgylchiadau eraill.

Gall rhai atgyfeiriadau gynnwys mwy nag un meddyg.

Gwrandawiadau tribiwnlys ymarferwyr meddygol – achosion newydd

Os yw'r GMC yn credu y gallai fod amhariad ar addasrwydd meddyg i ymarfer, gall atgyfeirio achos y meddyg atom ar gyfer gwrandawriad MPT.

Mae gwrandawriad MPT yn dilyn tri cham:



Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025


Gwnaeth tribiwnlysoedd ymarferwyr meddygol benderfyniadau mewn 160 o achosion meddygon yn 2025.

I roi'r ffigur hwnnw yn ei gyd-destun, roedd 393,357 o feddygon ar gofrestr feddygol y DU ddiwedd 2024. Yn yr un flwyddyn, ystyriodd y GMC 10,031 o bryderon am feddygon, ac roedd 814 ohonynt yn cyrraedd y trothwy statudol ar gyfer ymchwilio.

Canlyniad MPT newydd	2023	2024	2025
Amhariad: Dileu	60	67	48
Amhariad: Ataliad dros dro	109	76	68
Amhariad: Amodau	13	9	7
Amhariad: Dim camau gweithredu	2	2	1
Dim amhariad: Rhybudd	15	6	11
Dim amhariad	49	24	23
Dileu gwirfoddol	2	1	2
Cyfanswm	250	185	160

Lleoliad gwrandawiadau

Ym mhob achos, rydyn ni'n gweithio gyda'r meddyg a'r GMC i benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer gwrandawriad: wyneb yn wyneb, ar-lein neu hybrid o'r ddau.



Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Mathau o amhariad honedig yn 2025

Mewn gwrandawriad MPT newydd, mae'n bosib y bydd y GMC yn honni bod amhariad ar addasrwydd meddyg i ymarfer ar sail un neu fwy o'r canlynol:

- ▶ camymddwyn
- ▶ perfformiad proffesiynol diffygiol
- ▶ euogfarn, neu rybuddiad, am drosedd
- ▶ iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael
- ▶ ddim yn ddigon hyfedr mewn Saesneg
- ▶ penderfyniad a wnaed gan gorff rheoleiddio arall.

Roedd mwyafrif helaeth ein prif wrandawiadau yn 2025 yn cynnwys honiadau o gamymddwyn, neu gamymddwyn a ffactor arall.

Ychydig iawn o achosion sy'n cael eu atgyfeirio atom ar sail iechyd meddyg yn unig. Nid oedd unrhyw achosion yn ymwneud â hyfedredd meddyg mewn Saesneg yn unig.

Honiad amhariad MPT newydd 2025	Nifer	Canran
Camymddwyn	98	61.3%
Euogfarn	20	12.5%
Perfformiad	1	0.6%
Iechyd	4	2.5%
Penderfyniad gan reoleiddiwr arall	2	2.2%
Camymddwyn ac euogfarn	14	8.8%
Camymddwyn ac iechyd	6	3.8%
Camymddwyn a phenderfyniad gan reoleiddiwr arall	3	1.9%
Euogfarn ac iechyd	5	3.1%
Cyfuniadau eraill o fathau o amhariad	7	4.4%
Cyfanswm	160	

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Dadansoddiad pellach o'r mathau o achosion

Mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau MPT newydd yn ystyried camymddwyn o ryw fath, ond mae hwn yn gategori eang iawn. Rydyn ni wedi dadansoddi canlyniadau gwrandawiadau MPT newydd yn 2025 ac wedi defnyddio'r categorïau math o achos sy'n cael eu defnyddio yn ein *Canllawiau newydd ar gyfer Tribiwnlysoedd yr MPTS*.

Bydd canlyniadau gwrandawiadau'n cael eu cofnodi yn ôl y categorïau hyn o hyn ymlaen.

Dim ond ar gyfer gwrandawiadau yn dechrau o 24 Tachwedd 2025 ymlaen y daeth y canllawiau newydd i rym. Rydyn ni wedi cymhwyso'r categorïau yn ôl-weithredol i weddill canlyniadau'r flwyddyn.

Gall mwy nag un math o achos fod yn bresennol mewn un gwrandawiad. Cafodd 270 o fathau o achosion eu nodi ar draws 160 o wrandawiadau.

Mathau o achosion mewn gwrandawiadau MPT newydd yn 2025	Nifer	Canran
Anonestrwydd	74	27.54%
Camymddwyn rhywiol	48	17.8%
Math arall o gamymddwyn	41	15.2%
Pryderon clinigol	36	13.3%
Cyflwr iechyd gwael	24	8.9%
Ymddygiad treisgar neu gamdriniol	23	8.5%
Camdefnyddio/cam-drin sylweddau	12	4.4%
Gwahaniaethu	7	2.6%
Penderfyniad gan reoleiddiwr arall	5	1.9%
Cyfanswm	270	

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Roedd y 48 honiad o gamymddwyn rhywiol wedi'u rhannu ar draws 44 gwrandawriad. Gellir dadansoddi'r rhain ymhellach yn ôl natur yr honiad.

Mathau o achosion camymddwyn rhywiol mewn gwrandawiadau MPT newydd yn 2025	Nifer	Canran
Camymddwyn rhywiol – Cyd-weithiwr	18	37.5%
Camymddwyn rhywiol – Claf	17	35.4%
Camymddwyn rhywiol – Arall	11	22.9%
Camymddwyn rhywiol – Perthynas	2	4.2%
Cyfanswm	48	

Roedd 18 o achosion am honiadau o gamymddwyn rhywiol yn erbyn cyd-weithwyr, ac 17 o achosion am honiadau'n ymwneud â chleifion.

Mae'r mathau o achosion 'camymddwyn rhywiol – arall' yn ymwneud yn bennaf â throseddau ar-lein.

Cofnodwyd anonestrwydd fel honiad mewn dros chwarter yr holl achosion.

O'r 36 achos clinigol a nodwyd, dim ond naw oedd yn glinigol yn unig.

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Ynglŷn â'r meddygon oedd yn bresennol mewn gwrandawiadau MPT newydd yn 2025

Mae'r MPTS yn gwrandao ar achosion addasrwydd i ymarfer ar gyfer meddygon sydd wedi eu cofrestru yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r lleoliad a nodir isod yn seiliedig ar gorff dynodedig y meddyg, ardal ei feddygfa GIG neu'r cyfeiriad cofrestredig adeg atgyfeirio at wrandawriad MPT newydd.

Gwlad	Gwrandawiadau MPT newydd 2023		Gwrandawiadau MPT newydd 2024		Gwrandawiadau MPT newydd 2025		Cofrestr y DU (2024)
Lloegr	212	84.8%	170	91.9%	136	85.0%	74.1%
Gogledd Iwerddon	4	1.6%	3	1.6%	3	1.9%	2.3%
Yr Alban	11	4.4%	3	1.6%	11	6.9%	6.7%
Cymru	11	4.4%	0	0.0%	4	2.5%	3.7%
Y Tu Allan i'r DU	12	4.8%	9	4.9%	6	3.8%	13.2%
Cyfanswm	250		185		160		

Dynion yn bennaf yw meddygon sy'n ymddangos mewn gwrandawiadau MPT newydd, er mai ychydig dros hanner y gofrestr yn y Deyrnas Unedig sy'n ddynion.

Rhyw	Gwrandawiadau MPT newydd 2023		Gwrandawiadau MPT newydd 2024		Gwrandawiadau MPT newydd 2025		Cofrestr y DU (2024)
Gwrywaidd	212	84.8%	154	83.2%	123	76.9%	51.2%
Benywaidd	38	15.2%	31	16.8%	37	23.1%	48.8%
Cyfanswm	250		185		160		

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Roedd meddygon a oedd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU yn cyfrif am 52.5% o'r gwrandawiadau MPT newydd, er eu bod yn cynrychioli 45.2% o'r gofrestr.

Cymhwyster meddygol sylfaenol	Gwrandawiadau MPT newydd 2023		Gwrandawiadau MPT newydd 2024		Gwrandawiadau MPT newydd 2025		Cofrestr y DU (2024)
Y Deyrnas Unedig	100	40%	87	47%	76	47.5%	54.8%
Gweddill y Byd	150	60%	98	53%	84	52.5%	45.2%
Cyfanswm	250		185		160		

Hefyd, roedd meddygon a oedd yn bresennol mewn gwrandawiadau MPT newydd yn 2025 yn fwy tebygol o fod o grŵp ethnig lleiafrifol.

Ethnigrwydd	Gwrandawiadau MPT newydd 2023		Gwrandawiadau MPT newydd 2024		Gwrandawiadau MPT newydd 2025		Cofrestr y DU
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	98	39.8%	68	36.8%	51	31.9%	32.6%
Du / Du Prydeinig		8.8%	13	7.0%	22	13.8%	6.9%
Cymysg		2.4%	4	2.2%	6	3.8%	2.7%
Grwpiau ethnig eraill	18	7.2%	16	8.6%	10	6.3%	6.3%
Gwyn		33.6%	76	41.1%	57	35.6%	45.8%
Amhenodol		8.8%	8	4.3%	14	8.8%	5.7%
Cyfanswm	250		185		160		

Rydyn ni'n gwybod bod yr anghymesuredd hwn yn dechrau pan fydd cwynion yn cael eu gwneud i'r GMC i ddechrau gan gyflogwyr. Mae gan y GMC ddyletswydd statudol i ystyried yr holl bryderon sy'n cael eu hatgyfeirio ato, ac mae'n rhaid i'r MPTS wrando ar bob achos sy'n cael ei atgyfeirio gan y GMC.

Gosododd y GMC darged i ddileu'r anghymesuredd yn yr atgyfeiriadau y mae'n eu cael gan gyflogwyr erbyn 2026. Mae'r bwlch mewn cyfraddau atgyfeirio wedi lleihau'n gyson, gyda gwelliant parhaus o un flwyddyn i'r llall. Rydyn ni'n croesawu'r cynnydd hwn, yn ogystal â'r ymrwymiad i wneud hwn yn newid parhaol.

Bydd yr MPTS yn parhau i fonitro a chyhoeddi data ar sut mae'r anghymesuredd hwn yn dod i'r amlwg mewn gwrandawiadau. Dylid nodi y gall y canrannau amrywio'n sylweddol oherwydd y nifer isel o feddygon sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer gwrandawriad.

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Gwrandawiadau diffyg cydymffurfio

Os yw'r GMC yn credu bod meddyg sy'n destun ymchwiliad yn gwrthod cynnal asesiad o'i iechyd, ei berfformiad neu ei hyfedredd yn y Saesneg yn gyson neu'n benodol, gall atgyfeirio'r meddyg at yr MPTS ar gyfer gwrandawriad diffyg cydymffurfio.

Pan fydd tribiwnlys yn gwneud canfyddiad o ddiffyg cydymffurfio, gall osod sancsiwn o amodau neu ataliad dros dro.

Canlyniadau mewn gwrandawiadau diffyg cydymffurfio	2023	2024	2025
Ataliad dros dro	8	6	3
Amodau	1	1	2
Heb ganfod diffyg cydymffurfio	1	2	0
Cyfanswm	10	9	5

Gwrandawiadau adfer

Gall meddyg y cafodd ei enw ei ddileu oddi ar y gofrestr feddygol am resymau disgyblu wneud cais am adferiad ar ôl o leiaf pum mlynedd.

Rhaid i MPT benderfynu a yw'r meddyg yn addas i ymarfer ac a yw'n cyd-fynd â'n hamcan cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd i alluogi'r meddyg i adennill ei gofrestriad.

Canlyniadau mewn gwrandawiadau adfer	2023	2024	2025
Caniatáu'r cais	3	4	3
Cais wedi'i wrthod	12	14	12
Cais wedi'i wrthod	0	1	0
Cyfanswm	15	19	15

Canlyniadau gwrandawiadau yn 2025

Gwrandawiadau adolygu MPT

Wrth osod sanctiwn o amodau neu ataliad dros dro ar feddyg, gall MPT gyfarwyddo bod gwrandawriad adolygu'n cael ei gynnal cyn i'r cyfnod ddod i ben. Gall y GMC hefyd gyfeirio mater at yr MPTS i drefnu gwrandawriad adolygu.

Bydd tribiwnlys newydd yn penderfynu a oes amhariad o hyd ar addasrwydd y meddyg i ymarfer. Os canfyddir amhariad, mae'r amrediad llawn o sanctiynau ar gael. Gellir cynnal gwrandawiadau adolygu ar y papurau pan fydd y ddau barti'n cytuno ar y canlyniad arfaethedig, gan osgoi'r angen am wrandawriad llawn.

Adolygiadau MPT a gynhaliwyd yn 2025	
Gwrandawriad adolygu ar-lein	80
Gwrandawriad adolygu wyneb yn wyneb (gan gynnwys hybrid)	1
Adolygwyd ar y papurau	15
Cyfanswm	96

Adolygiadau o ddifffyg cydymffurfio MPT a gynhaliwyd yn 2025	
Gwrandawriad adolygu ar-lein	15
Gwrandawriad adolygu wyneb yn wyneb	0
Adolygwyd ar y papurau	2
Cyfanswm	17

Cynrychiolaeth a phresenoldeb

Meddygon heb gynrychiolaeth gyfreithiol	31
Unigolion cofrestredig heb gynrychiolaeth gyfreithiol	32
Absenoldeb meddygon	33
Cynrychiolaeth a phresenoldeb yn ôl ethnigrwydd	33
Cymorth i dystion	34



Cynrychiolaeth a phresenoldeb

Rydyn ni bob amser yn bryderus am nifer y meddygon nad ydynt yn dod i'w gwrandawriad, yn ogystal â'r nifer sy'n bresennol heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Y llynedd, ar draws pob math o wrandawriad, nid oedd 22.5% o feddygon yn bresennol yn eu gwrandawriad ac ni wnaethant anfon cynrychiolydd cyfreithiol. Aeth 20.5% o feddygon i'w gwrandawriad heb gynrychiolydd cyfreithiol, a 0.1% arall gyda chynrychiolydd nad oedd yn gweithio ym myd y gyfraith.

Mae'r ffigurau hyn wedi gwella ers cyflwyno gwrandawiadau ar-lein yn 2020, ond rydyn ni'n parhau i bwysleisio pwysigrwydd cynrychiolaeth gyfreithiol broffesiynol yn ein hachosion. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r meddygon hynny sy'n dod i wrandawriad ar eu pen eu hunain drwy ddarparu canllawiau clir am ein prosesau a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth.

Pob math o wrandawriad (newydd ac adolygu)	2025	
	Nifer	Canran
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol	546	53.6%
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith	2	0.2%
Yn bresennol heb gynrychiolaeth	209	20.5%
Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig	31	3.0%
Cynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith yn unig	1	0.1%
Ddim yn bresennol	229	22.5%
Cyfanswm	1018	


Gwrandawiadau tribiwnlys gorchmynion interim newydd	2025	
	Nifer	Canran
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol	255	71.4%
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith	1	0.3%
Yn bresennol heb gynrychiolaeth	62	17.4%
Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig	7	2.0%
Cynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith yn unig	0	0.0%
Ddim yn bresennol	32	9.0%
Cyfanswm	357	

Cynrychiolaeth a phresenoldeb

Gwrandawiadau MPT newydd	2025	
	Nifer	Canran
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol	96	60.0
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith	0	0.0
Yn bresennol heb gynrychiolaeth	35	21.9
Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig	2	1.3
Cynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith yn unig	0	0.0
Ddim yn bresennol	27	16.9
Cyfanswm	160	

Meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia heb gynrychiolaeth gyfreithiol

Rydyn ni eisiau i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia sy'n cynrychioli eu hunain fod mor barod â phosib ar gyfer eu gwrandawriad. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn rhoi'r dystiolaeth orau bosib ac yn lleihau'r risg y bydd gwrandawriad yn cael ei ohirio'n rhannol, gan ei gwneud yn ofynnol cynnal diwrnodau eraill cyn gallu cwblhau'r gwaith.



Mae ein Hadnoddau ar-lein ar gyfer *Meddygon ac Adnoddau ar gyfer Cymdeithion Meddygol a Chymdeithion Anaesthesia* wedi'u hysgrifennu'n benodol ar gyfer meddygon heb gynrychiolaeth gyfreithiol, gan eu tywys mor glir â phosib drwy bob cam o'r broses wrandawiadau.

Rydyn ni hefyd yn cynnig gwasanaeth gwybodaeth dros y ffôn a gynhelir gan fyfyrwyr o Ysgol y Gyfraith Prifysgol BPP, Manceinion, sy'n cynnig gwybodaeth am y drefn wrandawiadau (ond nid cyngor cyfreithiol).

Mae ein Gwasanaeth Cymorth MPTS ar gael i bob meddyg, cydymaith meddygol a chydymaith anaesthesia cyn ac ar ddiwrnod gwrandawriad, ac mae wedi ei anelu'n benodol at y rhai sy'n bwriadu bod yn bresennol ar eu pen eu hunain neu heb gynrychiolaeth gyfreithiol. Gall aelod o'n staff nad oes ganddo gysylltiad ag achos yr unigolyn cofrestredig fod ar gael i siarad ar unrhyw adeg.

Nod y gwasanaeth hwn yw:

- ▶ helpu i leihau'r unigedd a'r straen y gallai unigolyn cofrestredig eu teimlo, a'i gyfeirio at ddeunyddiau a gwasanaethau cymorth defnyddiol
- ▶ darparu gwybodaeth am y broses gwrandawiadau.

Cynrychiolaeth a phresenoldeb

Absenoldeb meddygon

Mewn rhai achosion, mae meddygon wedi rhoi'r gorau i ymgysylltu â'r GMC yn ystod y broses ymchwilio, tra bod eraill yn rhoi'r gorau i ymgysylltu ar ôl cael eu hatgyfeirio at yr MPTS.

Mae ein tribiwnlysoedd bob amser yn ystyried y rhesymau dros absenoldeb y meddyg yn ofalus, er mwyn penderfynu a yw'n deg bwrw ymlaen. Fel arfer, mewn achos lle mae'r meddyg wedi bod yn absennol yn wirfoddol, bydd y tribiwnlys yn penderfynu ei bod er budd y cyhoedd i barhau â'r gwrandawriad.

Mae methiant i gymryd rhan weithredol yn anochel yn amddifadu'r meddyg o'r cyfle i gyflwyno ei dystiolaeth ei hun. Bydd hefyd yn ei gwneud yn anodd i'r tribiwnlys ddod i'r casgliad bod y meddyg wedi dangos lefel y ddealltwriaeth a'r adferiad sy'n angenrheidiol i osgoi canfyddiad o amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer.

Cynrychiolaeth a phresenoldeb yn ôl ethnigrwydd

Fel yr amlinellir uchod (gweler t27), mae nifer anghymesur o feddygon ethnig leiafrifol a meddygon sydd wedi'u hyfforddi y tu allan i'r DU yn ymddangos yn ein gwrandawiadau, o'i gymharu â chofrestr y DU.

Mae ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid wedi dangos nad oes cysylltiad rhwng canlyniadau mwy difrifol mewn gwrandawiadau ac unrhyw nodwedd warchodedig. Fodd bynnag, mae cysylltiad cryf rhwng canlyniadau difrifol a meddygon nad oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol neu nad ydynt yn bresennol.

Mae'r tablau isod yn dangos nad yw'r lefelau presenoldeb a chynrychiolaeth yn unffurf ar draws grwpiau ethnig.

Tribiwnlysoedd gorchmynion interim newydd yn 2025	Pob meddyg	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Du / Du Prydeinig	Cymysg	Grwpiau ethnig eraill	Gwyn	Heb nodi
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol	71.4%	70.2%	65.9%	100%	71.1%	77.3%	50.0%
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith	0.3%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.8%	0.0%
Yn bresennol heb gynrychiolaeth	17.4%	19.0%	24.4%	0.0%	21.1%	12.5%	19.2%
Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig	2.0%	1.7%	0.0%	0.0%	0.0%	2.3%	7.7%
Cynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith yn unig	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
Ddim yn bresennol	9.0%	9.1%	9.8%	0.0%	7.9%	7.0%	23.1%

Cynrychiolaeth a phresenoldeb

MPT newydd yn 2025	Pob meddyg	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Du / Du Prydeinig	Cymysg	Grwpiau ethnig eraill	Gwyn	Heb nodi
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth gyfreithiol	60.0%	62.7%	59.1%	66.7%	50.0%	57.9%	64.3%
Yn bresennol gyda chynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
Yn bresennol heb gynrychiolaeth	21.9%	25.5%	40.9%	33.3%	30.0%	14.0%	0.0%
Cynrychiolaeth gyfreithiol yn unig	1.3%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	3.5%	0.0%
Cynrychiolaeth o'r tu allan i fyd y gyfraith yn unig	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
Ddim yn bresennol	16.9%	11.8%	0.0%	0.0%	20.0%	24.6%	35.7%

Cymorth i dystion

Rydyn ni'n cydnabod bod gwrandawiaidau'n gallu achosi straen i unrhyw un sy'n bresennol, a hynny fel meddyg, cydymaith meddygol, cydymaith anaesthesia, tyst neu barti arall sydd â buddiant, fel aelod o'r teulu mewn profedigaeth.

Er mwyn helpu pobl i ymgyswrtu â'n gwrandawiaidau a'n prosesau, mae gwybodaeth ar gael mewn print ac ar-lein i unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn bresennol mewn gwrandawiad.

Gelwir tystion i'n gwrandawiaidau gan y GMC a gan feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia. Yn ein canolfan wrando, rydyn ni'n darparu cyfleusterau i alluogi'r ddau barti i ofalu am eu tystion, gan gynnwys ystafell aros bwrpasol. Mae llawer o dystion hefyd yn rhoi tystiolaeth o bell.

Apeliadau

Sut rydyn ni'n ymateb i ddyfarniadau apêl
Canlyniadau apeliadau

36
37



Apeliadau

Gall y meddyg, y GMC a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) apelio yn erbyn penderfyniad gan MPT.

Gwrandewir apeliadau gan Lys y Sesiwn yn yr Alban, Uchel Lys Barn Gogledd Iwerddon, neu'r Uchel Lys Barn yng Nghymru a Lloegr.

Os bydd achos yn mynd ymlaen i wrandawriad mewn llys, gall y barnwr wneud y canlynol:

- ▶ gwrthod yr apêl
- ▶ caniatáu'r apêl, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, a
 - diddymu penderfyniad y tribiwnlys perthnasol,
 - rhoi penderfyniad y tribiwnlys yn lle penderfyniad arall y gallai'r tribiwnlys fod wedi'i roi, neu
 - atgyfeirio'r achos yn ôl ar gyfer penderfyniad tribiwnlys MPT newydd.

Mae *Gorchymyn Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024* yn darparu mecanwaith apelio gwahanol ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia.

Sut rydyn ni'n ymateb i ddyfarniadau apêl

Gall dyfarniadau mewn apeliadau neu heriau fod yn ddefnyddiol wrth egluro materion cyfreithiol ac wrth ddarparu pwyntiau dysgu y gallwn eu defnyddio i wella penderfyniadau tribiwnlysoedd yr MPTS yn y dyfodol.

Rydyn ni'n llunio cylchlythyrau apêl, sy'n crynhoi'r wybodaeth allweddol o ddyfarniadau i aelodau tribiwnlysoedd ac yn nodi pwyntiau dysgu neu arferion da. Mae'n bosib y bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu hefyd mewn hyfforddiant blynyddol.

Mae'r penderfyniadau sy'n cael eu hapelio yn cael eu rhannu â holl aelodau tribiwnlysoedd. Gellir cynnig adborth uniongyrchol i aelodau tribiwnlysoedd, os oes angen, fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae crynodeb o'r pwyntiau dysgu a gyhoeddwyd yn 2025 ar gael yn adran Gwneud Penderfyniadau yr adroddiad hwn.

Apeliadau

Canlyniadau apeliadau

- Mae colofnau blwyddyn yn cyfeirio at y dyddiad y daeth gwrandawiadau tribiwnlys i ben, nid pan glywyd apeliadau.

Apeliadau meddygon	2023	2024	2025
Llwyddo	3	0	1
Diystyrwyd	15	7	9
Dilëwyd	0	2	1
Tynnwyd yn ôl	2	4	2
Ailgyfeiriwyd at MPT	1	2	0
I'w glywed	0	0	7
Cyfanswm	21	15	18

Apeliadau'r GMC	2023	2024	2025
Llwyddo	2	2	1
Diystyrwyd	0	1	0
I'w glywed	0	0	6
Cyfanswm	2	3	7

Apeliadau'r PSA	2023	2024	2025
Llwyddo	0	0	0
Diystyrwyd	0	0	0
Tynnwyd yn ôl	0	0	1
Ailgyfeiriwyd at MPT	1	1	0
I'w glywed	0	0	1
Cyfanswm	1	1	2





Gwasanaeth Tribiwnlys
Ymarferwyr Meddygol

Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol
Seventh Floor
St James's Buildings
79 Oxford Street
Manceinion
M1 6FQ

Rhif ffôn 0161 923 6263
E-bost enquiries@mpts-uk.org
Gwefan www.mpts-uk.org

To ask for this publication in another format or language, please call us on **0161 923 6602** or email us at **publications@gmc-uk.org**.

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu anfonwch e-bost atom yn **publications@gmc-uk.org**.

You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without this causing additional delay.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

Cyhoeddwyd ym mis Awst 2026.